**LC161**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Taliadau Sŵn Priffyrdd (Cartrefi Symudol) (Cymru) 2001**

**Y cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi pŵer i'r awdurdodau priffyrdd wneud taliadau hyd at £1,650 i feddianwyr carafanau a chychod preswyl os oes sŵn sy'n cael ei achosi wrth i ffyrdd newydd neu ffyrdd sydd wedi'u haddasu gael eu hadeiladu neu eu defnyddio yn effeithio arnynt, neu yn debyg o effeithio arnynt, i raddau sylweddol.

Ceir y pŵer galluogi yn adran 20A o Ddeddf Iawndal Tir 1973.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

Mae nifer o wallau teipograffyddol wedi'u nodi. Dylai'r rhain gael eu cywiro cyn cyhoeddi'r Rheoliadau.

- Y Nodyn Esboniadol, y paragraff cyntaf – wrth gyfeirio at y "Land Compensation Act" mae angen priflythyren L .
- Rheoliad 10 cymharer "payments" yn yr "Arrangement of Regulations" â "payment" yn y pennawd yn y testun.
- Rheoliad 1(1) – wrth enwi'r teitl ceir 2000 yn lle 2001.
- Rheoliad 4 – mae "in" wedi'i gamsillafu.

**Rheoliad 7(3)**

Mae paragraff (3), yn wahanol i baragraff (2), yn cyfeirio at daliadau yn sgil “gwaith perthnasol”.

O gofio’r diffiniad o “gwaith perthnasol” yn Rheoliad 2, credid i ddechrau y gallai hyn beri bod Rheoliad 7(3) yn cael ei ddehongli fel pe bai’n gymwys i daliadau o dan Reoliad 3(3) yn unig.

Er hynny, ar sail defnydd y term “gwaith perthnasol” yn Rheoliadau 8 a 10(1)(h) wedyn, mae’n amlwg mai’r bwriad yw i gyfeiriadau at daliadau yn sgil “gwaith perthnasol” gynnwys taliadau o dan Reoliad 3(1) yn ogystal ag o dan Reoliad 3(3).

**Mick Bates AM**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

6 Chwefror 2001